

Adnoddau gwreiddiol sy'n dangos tystiolaeth o feithrin sgiliau llythrennedd dysgwyr a gwahaniaethu

Blwyddyn 7

Hetiau De Bono: Mae angen i'r disgyblion defnyddio Hetiau De Bono er mwyn gwerthuso Bar/Bat Mitzvah. Mae'r hetiau yn symboleiddio sgiliau llythrennedd Cymraeg gwahanol. Mae'n galluogi disgyblion gweithredu nifer o sgiliau megis mynegi barn, gwerthuso, pwysu a mesur a bod yn greadigol.

I wahaniaethu, dwi wedi defnyddio'r Hetiau De Bono fel rhyw fath o ffurf Tacsonomeg Bloom. Mae'r hetiau yn cynrychioli lliw, ac mae'r lliw yn cynrychioli sgil penodol. Mae'r het wen yn yr het fwyaf syml o ran cyflwyno gwybodaeth ac fel y Dacsonomeg Bloom lle maent yn mynd yn anoddach wrth fynd trwy'r lliwiau, fel yr het goch sy'n ofyn i ddisgyblion pwysu a mesur. Penderfyniad y disgyblion dewis y fath o gwestiynau nhw eisiau ateb yn ôl gallu nhw.

Hetiau De Bono

- Dewiswch pa hetiau hoffech chi ateb. Ysgrifennwch y cwestiwn, wedyn atebwch.
- Mae angen i bawb cwblhau O LEIAF 3 het.
- Ceisiwch ateb pob un!

Y CHWECH HET!

 <u>Ffeithiau</u>	<u>Eglurwch prif nodweddion seremoni Bar/Bat Mitzvah.</u>	 <u>Manteision</u>	<u>Eglurwch 2 peth positif o gael Bar/Bat Mitzvah.</u>	 <u>Problemau</u>	<u>Eglurwch 2 peth negyddol o gael Bar/Bat Mitzvah.</u>
 <u>Creadigrwdd</u>	<u>Dyluniwch gwahoddiad (invitation) er mwyn hysbysebu Bar Mitzvah Solomon.</u>	 <u>Beirniadu</u>	<u>'Mae 12 a 13 yn rhy ifanc i gael ei ystyried yn oedolion' Cytuno/anghytuno ?</u>	 <u>Teimladau</u>	<u>Pam byddai rhai pobl yn credu dylai Iddewon addasu eu syniadau i gyd-fynd a'r amser?</u>

Cychwynwyr Her:

Mae'r dasg agoriadol yma yn ofyn i'r disgyblion naill ai ysgrifennu brawddeg gan ddefnyddio 3/9 o'r geiriau allweddol NEU i ysgrifennu paragraff byr gan ddefnyddio pob gair. Gwelir bod y dasg yma yn galluogi disgyblion ymarfer sgiliau llythrennedd Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio'r eirfa allweddol ac i roi mewn i frawddegau llawn/paragraff byr. Rwyf wedi gwahaniaethu'r dasg yma try roi dewis i'r disgyblion creu paragraff byr gan ddefnyddio pob gair, neu ddefnyddio 3 gair allweddol a rhoi i mewn i frawddeg.

HER

BAR MITZVAH	KIPPAH	TALLIT
BAT MIZVAH	YAD	BIMAH
SYNAGOG	TORAH	RABBI

Hot

Ysgrifennwch frawddeg gan ddefnyddio 3 o'r geiriau allweddol yma!

NEU

Extra Hot

Ysgrifennwch paragraff byr gan ddefnyddio pob gair!

Tasg Her: Cerdd Acrostig

Rydw i wedi cynllunio tasg her i'r disgyblion sydd wedi gorffen yr e-bost – i greu cerdd acrostig 'BAR MITZVAH' er mwyn crynhoi beth nhw wedi dysgu yn eiriau ei hunain. Byddaf yn dweud mai angen defnyddio geiriau allweddol fel Yad, Kippah. Yma bydd disgyblion yn defnyddio eu sgiliau llythrennedd o ysgrifennu cerdd acrostig gan ddefnyddio geirfa allweddol. I wahaniaethu, rwyf wedi cynnig y tair brawddeg gyntaf felly mae hawl i ddisgyblion defnyddio.

Tasg HER: Ysgrifennwch gerdd acrostig i ddangos beth
rydych chi wedi dysgu am Bar/Bat Mitzvah.
DEFNYDDIWCH EIRIAU ALLWEDDOL!




Bechgyn Iddewig yn troi'n oedolyn pan yn 13 mlwydd oed.

Angen i'r bechgyn darllen o'r Torah efo'r Yad.

Rhaid i'r Bar Mitzvah digwydd ar yr Shabbat agosaf i ben-blwydd y bachgen Iddewig.

M
I
T
Z
V
A
H

Bocs eirfa allweddol:

Bar Mitzvah		Mab y <u>Gorchmynion</u>	Kippah		Cap/ het <u>penglog.</u>
Bat Mitzvah		Merch y <u>Gorchmynion</u>	Tallit		<u>Siôl weddio</u>
Synagog		<u>Adeilad sanctaidd yr Iddewon.</u>	Yad		<u>Pwyntydd i ddefnyddio tra'n darllen y Torah.</u>
Torah		<u>Llyfr sanctaidd Iddewiaeth.</u>	Rabbi		<u>Athro ac arweinydd crefyddol Iddewig.</u>

Cwestiynau Cwis: Rwyf wedi creu cwestiynau cwis am ddefodau dod i oed Iddewig, lle mae angen i'r disgyblion ysgrifennu ac ateb y cwestiynau yn eu llyfrau. I wahaniaethu, rwyf wedi creu tasg her, lle mae angen i'r disgyblion ysgrifennu manteision ac anfanteision o gael Bar Mitzvah.

Tasg 3: 10 munud i gwblhau y cwestiynau.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth chi wedi dysgu wrth gwblhau Tasg 1 a 2, mynd ati i ysgrifennu ac ateb y cwestiynau yn eich llyfr.

1. Beth yw Bar Mitzvah?
2. Beth yw Bat Mitzvah?
3. Beth mae'r bachgen Iddewig yn gwisgo yn ystod y seremoni?
4. Pa iaith mae'r bachgen yn darllen ac o ba lyfr?
5. Sut mae'r bachgen/merch yn cael ei ystyried ar ôl y seremoni?

10 munud

Diwedd

TASG HER: Petai chi wedi gorffen pob tasg, mynd ati i ateb y dasg heriol:
'Gan ddefnyddio barn eich hun, nodwch fanteision ac anfanteision o gael Bar Mitzvah'.

☆ - Creu tabl yn eich llyfr ac nodwch fanteision ac anfanteision o gael Bar Mitzvah.


Mynegi Barn: Bydd y disgyblion yn ymarfer sgil llefaredd wrth i fechgyn dadlau - A yw'n anheg i ferched Iddewig aeddfedu cyn bechgyn Iddewig?' a merched dadlau - A yw'n deg i ferched peidio gwisgo Kippah a Tallit?' Rwyf wedi cynnwys geirfa mynegi barn ar sleid PPT er mwyn annog y disgyblion i ddefnyddio'r eirfa yma. I wahaniaethu, rwyf wedi dewis iddynt drafod mewn pâr er mwyn helpu ei gilydd rhannu a thrafod syniadau.

TASG 2: Mynegi Barn

❖ Yn eich parau, mae angen i chi ddadlau:

❖ **Bechgyn** – 'A yw'n anheg fod merched Uniongred yn cael eu ystyried yn oedolion cyn bechgyn?'

❖ **Merched** – 'A yw'n deg i ferched peidio gwisgo Kippah a Tallit?'




Diwedd



Tasg Ysgrifenedig: dwi am i'r disgyblion cwblhau tasg ysgrifenedig yn ei llyfrau: 'Nodi'r gwahaniaethau rhwng Iddewiaeth Uniongred ac Iddewiaeth Ddiwygiedig yn nhermau Bar/Bat Mitzvah'. I wahaniaethu, rydw i wedi cynnig model o sut i ateb y cwestiwn – y 'bwrgwr'. Ymhellach, fel tasg her, petai'r disgyblion wedi gorffen rydw i wedi cynllunio tasg ymestynnol sydd yn ofyn i'r disgyblion i ysgrifennu pam byddai rhai pobl yn credu dylai Iddewon addasu eu syniadau i gyd-fynd a'r amser.

Tasg 2: Tasg Ysgrifenedig

- 'Nodwch y gwahaniaeth rhwng Iddewiaeth Uniongred ac Iddewiaeth Ddiwygiedig yn nhermau Bar/Bat Mitzvah'.



Tasg Her: Os ydych chi wedi gorffen, ysgrifennwch pam byddai rhai pobl yn credu dylai Iddewon addasu eu syniadau i gyd-fynd a'r amser?



[illegible]

Tasg Darllen a Deall:

Mae angen i'r disgyblion darllen a deall tudalen gwybodaeth a bwydo'r wybodaeth briodol ar y tudalen gwaith. Yma, mae disgyblion angen defnyddio eu sgiliau darllen ac ysgrifennu wrth ddarllen y darn darllen ac ateb y cwestiynau.

Syth ar ôl geni'r babi

Mae pob babi Mwslemaidd yn cael ei ystyried yn fendith arbennig gan ALLAH.

Mae babi newydd yn cael ei groesawi i'r **UMMAH** – set teulu mawr Islam cyn gynted ag y mae'n cael ei eni.

Mae pennaeth y teulu yn cynryd y babi yn ei freichiau ac yn sibwrdd yr alwad i weddio – dyma yw'r **ADHAN** yn ei glust dde - "Nid oes Duw ond Allah, a Muhammad yw ei broffwyd". Yna mae'r gorchymyn i godi ac addoli – y **IQAMAH** yn y glust chwith.

Felly, y gair cyntaf mae babi yn clywed yw geiriau ALLAH.

Yna, mae'r **TAHNIK**, lle mae mēl, neu ddarn bach o siwgr yn cael ei rhoi yng nghen y babi gan y person hynaf neu fwyaf parchus yn y teulu.

Mae hyn yn symbol o vneud y plentyn yn 'fvynt' (gentle)- yn ufudd a charedig a gobeithio bydd y babi yn cael bywyd hapus a melys.

Yna, mae gweddio dros y babi a'r teulu'n digwydd wedyn.

Saith diwrnod ar ôl genedigaeth

Saith diwrnod ar ôl i'r babi cael ei eni mae'r seremoni **AQIQAH**, pan mae gwallt y baban yn cael ei thorri/ellio. Yn ôl traddodiad, mae arian o'r un pwysau a'i gwallt yn cael ei rhoi i'r tlodion, er fel arfer mae llawer fwy o arian yn cael ei rhoi.

Yna, mae **ABERTH** (sacrifice), sef gweithgaredd hen iawn fel ffordd o ddiolch. Mae dau **ANIFAIL** yn cael ei aberthu os yw'r babi'n fachgen ac un anifail os yw'n ferch. Mae'r cig yn cael ei goginio a'i rannu gyda'r gwesteion a thlodion.

Mae'r **ENW** sy'n cael ei ddevis yn bwysig, ac fel arfer mae'n enw teuluol neu un o enwau teulu Muhammad. Mae'r enwau sydd yn awgrymu rhinweddau yn cael eu hysgol, ac mae enwau sydd yn awgrymu caethwasiaeth i unrhyw un heb law Allah hefyd yn cael ei wahardd. Mae rhai o'r enwau gorau yn dechrau gyda Abd sy'n golygu 'caethwas' ac yn cael ei ychwanegu at enwau eraill am Allah e.e.. Abdullah.

Os bachgen yw'r babi, bydd rhaid iddo gael ei enwaedu. **KHITAN** yw'r enw ar hyn. Os yw'r babi'n sâl, fe all rhieni aros nes ei fod yn iach.

RHIF 1

EICH TASG

- ▶ Cofiwch eich rhif.
- ▶ RHIF 1: Darllen adran am **SYTH AR ÔL GENI'R BABI**
- ▶ RHIF 2: Darllen adran am **SAITH DIWRNOD AR ÔL GENEDIGAETH**
- ▶ Darllenwch y cwestiynau ar y daflen waith, a gan ddefnyddio'r tudalen gwybodaeth atebwch y cwestiynau.

RHIF 2

Beth sydd yn digwydd i fabi Mwslemaidd ar ôl cael ei eni?

Yn syth ar ôl genedigaeth

I ba grwp y mae babi Mwslemaidd yn cael ei groesawi iddo?



Beth sy'n cael ei adrodd i glust y babi?



Sut mae mēl yn cael ei ddefnyddio yn ystod genedigaeth babi Mwslemaidd? Beth mae hwn yn symboleiddio?



Beth sydd yn digwydd i fabi Mwslemaidd ar ôl cael ei eni?

Saith dydd ar ôl genedigaeth

Beth sydd yn cael ei dorri yn ystod seremoni geni babi? Beth mae hyn yn symboleiddio?



Pa enwau all babi Mwslemaidd ei gael? Rowch enghraifft.

ENW:


Beth sydd yn cael ei aberthu pam mae babi Mwslemaidd yn cael ei eni?



Darn Darllen a Diagram Venn:

Mae angen i’r disgyblion darllen a deall tudalen gwybodaeth ac mewn geiriau eu hun bwydo’r wybodaeth briodol i mewn i Ddiagram ‘Venn’. Rhaid iddyn nhw ysgrifennu am Fedydd Babi a Bedydd Oedolyn a beth sydd yn debyg rhyngddyn nhw.

BĒDYDD BABI	
Mae’r rhan fwyaf o enwadau Cristnogol yn derbyn y syniad o fedydd babi. Mae Catholigion, Cristnogion Uniongred, Anglicaniaid, Methodistiaid ac eraill yn bedyddio babanod. Gyda’i gilydd, maen nhw’n cyfri am tua 80% o holl Gristnogion.	O fewn seremoni Bedydd Babi, mae rhieni’n dod a’u plentyn i’r Offeiriad lle mae’n rhoi dŵr ar pen y plentyn o’r bedyddfaen ac yn dweud ‘yr wyf yn dy fedyddio di yn enw’r Tad a’r Mab a’r Ysbryd Glan’ . Mae rhai Cristnogion Uniongred a rhai Catholigion yn bedyddio’r babi drwy ei drochi’n llwyr i’r dŵr.
Mae’r bedyddfaen fel arfer wedi ei leoli ar bwys mynedfa’r eglwys gan fod y seremoni’n arwydd o groesawi’r plentyn i deulu’r eglwys. Mae’r rhan fwyaf o Gristnogion yn bedyddio’r babi drwy naill ai arllwys dŵr neu ddiferu dŵr ar y plentyn. Mae rhan fwyaf yn dewis gwisgo eu plentyn mewn gwyn ar gyfer y seremoni.	Mae rhieni bedydd yn cael eu dewis. Dylai rhain fod yn Gristnogion sydd am arwain y plentyn mewn ffordd Gristnogol. Fe fydd yn rhaid iddyn nhw wneud cyffes ffydd a bwriad yn ystod y seremoni. Ar ddiwedd y seremoni, fe fydd y rhieni’n derbyn kannwyll wedi eu goleuo sy’n
BĒDYDD OEDOLYN	
Mae hyn yn ddefod o gael eich glanhau gyda dŵr ac fel arfer yn cael ei gysylltu gyda mynediad i’r eglwys Gristnogol. Fe ddaeth yr arfer Cristnogion o’r traddodiad Iddewig o buru eich hun mewn bath arbennig. Fe wnaeth loan Bedyddiwr berfformio bedydd ar gyfer dileu pechod ac roedd Iesu a’i ddisgyblion wedi mabwysiadu’r traddodiad ohono fe.	Ar ôl marwolaeth Iesu fe wnaeth y Cristnogion defnyddio’r ddefod fel seremoni derbyn i’r ffydd a oedd yn symboleiddio marwolaeth yr hen berson a geni person newydd drwy Grist . Ers hynny, mae bedydd wedi chwarae rôl bwysig iawn yn nhraddodiad seremonïau Cristnogol.
Fel arfer mae’r bedydd yn golygu trochiad llwyr mewn dŵr yn gyhoeddus. Mae’n symboleiddio diwedd hen fywyd a dechrau bywyd newydd . Pwrpas y seremoni yw derbyn ysbryd Duw a dod yn aelod o’r eglwys.	Mae gan y rhan fwyaf o eglwysi/capeli sy’n perfformio bedydd, pwll arbennig sydd wedi cuddio o dan y llawr. Fe all eglwysi sydd heb un ddefnyddio pwll aer neu ddefnyddio pwll nofio neu afon/môr .



Paratoi ar gyfer tasg ysgrifenedig:

Mae angen i'r disgyblion paratoi i ysgrifennu ac ateb cwestiwn mynegi barn:

“Mae angen cynnal seremoni grefyddol i ddathlu genedigaeth babi.”

Rydw i am ofyn i greu Meini Prawf Llwyddiant fel dosbarth, ac felly bydd y disgyblion yn ymwybodol o ddefnyddio matiau mynegi barn fel ‘Yn fy marn i... Ar y llaw arall....’/paragraffau/ystyried dwy ochr y ddadl ayyb.


Meini Prawf Llwyddiant

GWAITH PAR - <u>Pwyso a Mesur</u> : “ <u>Mae angen cynnal seremoni grefyddol i ddathlu genedigaeth babi.</u> ”	
O BLAID 	YN ERBYN 
• <u>Gwrando a dilyn rheolau Duw</u>	• <u>Babi methu cofio'r seremoni</u>

E-bost:

Yma, bu'r disgyblion yn defnyddio eu sgiliau darllen o ddarllen e-bost Solomon ac yna yn dysgu sut i ysgrifennu e-bost nôl at eu ffrind Iddewig.

I wahaniaethu, rwyf wedi cynnig enghraifft gall rhai disgyblion defnyddio wrth ysgrifennu'r e-bost.



EICH TASG 7C:

- Mae eich ffrind Solomon yn troi'n 13 cyn bo hir ac mae angen cynllunio ei Bar Mitzvah. Mae'n lan i chi sut i fynd ati i gynllunio!

Mae angen cynnwys:

1. Dyddiad (23ain o Dachwedd ar Shabbat)
2. Lleoliad (Yn y synagog)
3. Beth mae angen gwisgo
4. Beth sydd yn digwydd o fewn y seremoni



Ysgrifennwch yn eich llyfrau:

Ebost: Solomon@06@Hotmail.co.uk

Pwnc: Cynllun Bar Mitzvah

Annwyl Solomon,

Diolch am dy ebost! Rydw i wedi creu cynllun am eich Bar Mitzvah. Bydd eich Bar Mitzvah yn cymryd lle yn Synagog Diwygiedig yng Nghaerdydd at _____ y bore tan _____ y prynhawn. Bydd yr seremoni yn cymryd lle ar ddydd Sadwrn y 23ain o Dachwedd am fod dyma'r Shabbat agosaf i dy benblwydd. Mae'r trefniadau yn dilyn:

Blwyddyn 8

Briff Cyfrinachol: Ysgrifennu Araith

Yma rwyf wedi paratoi briff cyfrinachol i'r disgyblion darllen. Rydw i wedi rhoi 2 munud i'r disgyblion darllen y briff yn eu grwpiau. Mae angen i'r disgyblion cydweithio fel grŵp i rannu syniadau a pharatoi araith er mwyn cyflwyno i'r panel. Bydd angen i bawb ysgrifennu'r araith yn eu llyfrau. Bydd angen i'r disgyblion dewis 1 person o'r grŵp i adrodd yr araith i'r panel.

Y Briff



Mae gwyddonwyr wedi ffeindio fod Sloths wedi datblygu'r un problemau pancreas fel bodau dynol. Mae cancr y pancreas yn ddifrifol ac yn lladd miloedd o bobl pob blwyddyn. Mae gwyddonwyr eisiau profi meddyginiaeth ar yr Sloth i geisio ffeindio rhyw ffordd o wella.

Felly....

Mae gwyddonwyr wedi gofyn i gymryd Sloths er mwyn roi mewn lab lle fydd cyffuriau yn cael ei brofi arny'n nhw. Does neb yn ymwybodol o'r effeithiau ar yr Sloths o ganlyniad i'r cyffuriau ac felly nid ydynt yn siŵr byddant nhw'n teimlo'n unrhyw boen. Er hyn, mae gwyddonwyr yn credu wrth brofi ar Sloths, gallent nhw ffeindio rhywbeth i guro cancr.

Y Cyfarfod

Mae nifer o brotestio wedi codi am brofi ar anifeiliaid. Er mwyn cael rhyw fath o syniad am safbwyntiau eraill gan gynnwys grwpiau crefyddol, mae'r dosbarth yma wedi cael ei gwahodd i rannu syniadau sydd yn y bôn yn mynd i helpu efo'r penderfyniad i brofi ar yr Sloths neu ddim. Mae angen i chi perswadio'r panel gan ddefnyddio eich barn chi gan gynnwys safbwyntiau Mwslemaidd am brofi ar anifeiliaid.

Yn eich grŵp (dim mwy na 4):

- Paratoi araith (speech) am arbrofi ar anifeiliaid.
- Mae angen cydweithio, rhannu syniadau a pharchu eich gilydd

20 munud i baratoi araith fel grŵp er mwyn cyflwyno i'r panel.

Gellir dadlau:

- O blaid profi ar yr Sloths.
- Yn erbyn profi ar yr Sloths.
- Mae angen trafod safbwyntiau Mwslemaidd.



Mae angen i bawb ysgrifennu'r araith yn eu llyfrau.

- Mae angen dewis 1 person o'r grŵp i adrodd yr araith i'r panel.
- Ni ddylai'r araith bara mwy na munud.

Trafodaethau Ddosbarth:

Dwi am i'r disgyblion ymarfer eu sgiliau llefaredd a thrafod mewn parau petai nhw'n cytuno neu anghytuno efo rhestr o eitemau fel 'Hela llwynogod, arbrofion meddygol, lladd er mwyn cael y croen i greu dillad'. Ar ôl 3 munud o drafod, byddaf yn cynnal trafodaeth ddosbarth er mwyn rhannu safbwyntiau. Pwrpas y dasg yma yw deall safbwyntiau'r disgyblion am sut ddylai pobl trin anifeiliaid er mwyn bwydo mewn i destun o sut mae Mwslemiaid yn trin anifeiliaid.

Trafodwch: pa eitemau yma sy'n dangos triniaeth anheg anifeiliaid?

- Hela llwynogod (Fox Hunting)
- Arbrofion meddygol
- Pysgota fel diddordeb
- Mynd i Zw Saffari
- Arbrofi colour
- Lladd er mwyn cael y croen i greu dillad
- Saethu adar.
- Ffermio



Ysgrifennu llythyr anffurfiol:

Mae angen i'r disgyblion ysgrifennu llythyr anffurfiol. Ymhellach, mae'n angenrheidiol fod y disgyblion yn defnyddio arddull ymson cywir. Fel dosbarth, roedden ni wedi trafod beth mae angen er mwyn ysgrifennu llythyr anffurfiol – cyfeiriad chi ayyb.. I wahaniaethu, dwi wedi cynnig brawddeg agoriadol er mwyn helpu'r disgyblion dechrau ysgrifennu eu llythyr anffurfiol. Bydd hyn yn helpu'r disgyblion llifo mewn i'r llythyr.

LLYTHYR ANFFURFIOL

- 'Cyfeiriad' ti yma →

Dai Davies
1 Stryd yr Esgob
Pontypridd
CF32 8UW
- Annwyl Joe,
Swmae ffrind? Dw i'n ysgrifennu i ddisgrifio beth mae fel dilyn
deiet Kosher/Halal y dyddiau yma.